

Cludiant Coleg i Gampysau Coleg Llandrillo - Y Rhyl ac Abergele.

Os ydych yn fyfyrwr llawn-amser, addysg bellach sydd:

- o dan 19 oed ar 31 Awst 2023,
- Yn byw ym mwrdeistrefi sirol Conwy neu Sir Ddinbych ac
- yn byw dros dair milltir o'r Coleg,

yna byddwch yn gymwys i dderbyn pàs bws sgolor Arriva am ddim i'ch galluogi i deithio i'r coleg a nôl adre ar gludiant cyhoeddus. Os ydych yn byw dros 3 milltir o unrhyw lwybr cludiant cyhoeddus, yna mae'n bosib eich bod yn gymwys am darsi sy'n cysylltu gyda'r bws cyhoeddus. Cysylltwch â'r Cydlynnydd Cludiant i drefnu hyn.

Bydd pob myfyrwr sydd yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim yn derbyn pàs bws sgolor Arriva un ai cyn dechrau'r Coleg neu yn ystod y broses gofrestru wrth ddechrau yn y Coleg, bydd y rhain yna yn cael eu hail-ddosbarthu i ddysgwyr sy'n gymwys pob tymor. Mae Myfyrwyr yn gofyn dangos eu pàs bws Arriva ar bob taith.

Edrychwch ar yr amserlen isod i gynllunio eich taith

Myfyrwyr Conwy

<https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Parking-Roads-and-Travel/Public-Transport/Public-Transport.aspx>

Myfyrwyr Sir Ddinbych

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/parking-roads-and-travel/public-transport/public-transport.aspx>

Os ydych angen modd gwahanol o drafnidiaeth, e.e. pàs tren neu sgolor ar gyfer gweithredydd arall yna cysylltwch gyda'r Cydlynnydd Cludiant cyn gynted â phosib i drefnu hyn. Cliciwch ar y ddolen isod i ddarganfod amserau a siwrneiau ar gyfer y trêen.

<https://tfw.wales/>

Os ydych yn byw llai na 3 milltir o'r campws, dros 19 neu os ydych yn byw mewn unrhyw sir ar wahân i Gonwy neu Ddinbych yna bydd yn rhaid i chi drefnu a chyllido eich cludiant eich hun.

Dylai myfyrwyr ac anabledau dysgu a/neu anabledau sydd o dan 19 ac yn byw ym mwrdeistrefi sirol Conwy neu Sir Ddinbych gysylltu gyda'r Cydlynnydd Cludiant i drafod sut gall y Coleg helpu.

Am wybodaeth a chyngor ynglŷn â mynd i'r Coleg ac oddi yno, cysylltwch â'r Cydlynnydd Cludiant ar 01492 546 666 est **1410** neu anfonwch neges e-bost at transport@gllm.ac.uk.